

Rapio

Trosolwg

Diben y gweithgaredd hwn yw creu rap. Bydd y disgyblion yn gwneud y canlynol:

- Gwyllo clip fideo gan Genod Droog, y rapwyr Cymraeg, a dysgu am rap
- Trafod yr hyn sy'n debyg a'r hyn sy'n wahanol rhwng Shakespeare a hip hop
- Dysgu technegau i wella eu sgiliau barddoni
- Ysgrifennu eu rap eu hunain a chreu cyfeiliant cerddorol
- Perfformio eu rap i gynulleidfa
- Trafod sut mae artistiaid yn gwneud arian o'r diwydiant cerddoriaeth
- Cyflawni tasgau rhifedd yn seiliedig ar enillion cerddorion

Cyfoethogi

- Cyfleoedd posibl i gydweithio ag ysgrifenwyr, rapwyr, haneswyr, cerddorion, cyfansoddwyr, actorion, canolfannau celfyddydau a sefydliadau celfyddydau lleol, ysgol uwchradd leol

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd (FfLIRh)

Llythrennedd Digidol

Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)

Hanes

Cerddoriaeth: Sgiliau P1-3, P6-8; C1-4; A1-3

TGCh: Sgiliau: FAI1-3; CCI1-3, Ystod Bwledi 1-4

ABCh: Sgiliau WWO1-6; IOL1-4, Ystod AC1-3,7,9; MSD1,4

Adnoddau sy'n cael eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

- Clip fideo o'r band rap Cymraeg 'Genod Droog'
- Taflen arfarnu ar gyfer y rap
- Rhestr o dermau llenyddol a ddefnyddir mewn barddoniaeth
- Taflen Geiriau sy'n Odli
- Templed map cylch
- Taflen enghraifft o eiriau rap (Black Eyed Peas)
- Taflen waith rhifedd 'Arian a Wneir drwy Islwytho'

Adnoddau y mae angen sicrhau eu bod ar gael

- Mynediad at gyfrifiadur a'r rhyngwrwyd
- iPads/allweddellau electronig
- Offerynnau syml wedi'u tiwnio/heb eu tiwnio

Paratoi

- Clip fideo yn barod (o 'Music: Wales' DVD gan Tinopolis ar gyfer 'Addysg Cerdd ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3' gan Lywodraeth Cymru)
- Darparu llungopïau/copïau wedi'u chwyddo o daflenni gwaith
- Pensiliau/Post-its

Tasg 1: Beth ydyn ni'n ei wybod am rap a hip hop?	Cydweithredu	Llwybrau Cynnydd posibl y FflIRh.
<p>Bydd y disgyblion yn creu eu caneuon rap eu hunain. Nod Tasg 1 yw rhoi gwybodaeth gefndir iddyn nhw ac enghreifftiau o beth yw rap</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD – Ydyn nhw'n hoffi cerddoriaeth rap? Pa rapwyr ydyn nhw'n gwybod amdanynt? Ydyn nhw'n gwybod am unrhyw rapwyr o Gymru? ○ GWYLIO – Rhan 1 Perfformiad o fideo Genod Droog (stopiwch ar 2mun 50) http://artscouncil.staging.tinopolis.com/media/1530/resource_1.mp4 ○ TRAFOD – Arfarnu mewn parau yr hyn yr oedden nhw'n ei hoffi/ddim yn ei hoffi am y perfformiad ○ GWYLIO/TRAFOD/YSGRIFENNU – ar gyfer pob un o'r clipiau canlynol, bydd y disgyblion yn gwyllo'r adran berthnasol o'r fideo ac yna'n trafod y cwestiynau ar y daflen Arfarnu Genod Droog a ddarperir. Gall un aelod o'r grŵp fod yn gyfrifol am ysgrifennu'r nodiadau. Fel arall, rhwch un fersiwn wedi'i chwyddo i'r disgyblion fesul grŵp, a gallant ddefnyddio nodiadau post-it i ddangos eu syniadau. Rhan 2 Ynglŷn â'r Gerddoriaeth (2mun 50 - 3mun 35) Grwpiau i drafod – Beth yw rap? Rhan 3 Ffynonellau Sain (3mun 35 - 4mun 20) Pa offerynnau allwch chi eu defnyddio mewn cerddoriaeth gefndir/cyfeiliant rap? Rhan 4 Prosesau (4mun 20 - 6mun 20) Sut mae Genod Droog yn creu eu caneuon rap? Rhan 5 Elfennau Cerddorol (6mun 20 - 7mun 23) Beth yw strwythur eu rap? Sut maen nhw'n gwneud eu caneuon rap yn fachog ac yn gofiadwy? Rhan 6 Arfarnu (7mun 23 – 8mun 19) Beth ydych chi wedi'i ddysgu a fydd yn eich helpu pan fyddwch yn dechrau ysgrifennu eich rap eich hun? 	<p>Gallech gysylltu ag artist rap lleol i roi mewnbwn arbenigol. I gael awgrymiadau, cysylltwch â:</p> <p>Llenyddiaeth Cymru – Cronfa ddata Awduron Cymru http://www.literaturewales.org/</p> <p>Canolfannau celfyddydau lleol, er enghraifft... Chapter Caerdydd http://www.chapter.org/cy Galeri, Caernarfon http://www.galericaernarfon.com/ Mwldan, Aberteifi http://www.mwldan.co.uk/cy</p> <p>Cerdd Gymunedol Cymru http://communitymusicwales.co.uk/cy/</p> <p>Tŷ Cerdd http://www.tycerdd.org/about-us?diablo.lang=cym</p> <p>Efallai y bydd stiwdios recordio lleol yn gallu awgrymu rhywun</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLG1: gwranddo'n ofalus LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Ysgrifennu YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu</p>

Tasg 2: Beth fydd ffocws y rap?	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd posibl y FflIRh.
<p>Mae angen i'r disgyblion benderfynu beth fydd testun eu rap. Nod Tasg 2 yw dechrau creu syniadau a geiriau ar gyfer ysgrifennu'r rap</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD – Yr anghydraddoldebau ar gyfer y gymuned pobl dduon yn America yn y 60au/70au (tlodi, cyfleoedd gwael mewn bywyd). Roedd y rapwyr cyntaf mor ddig oherwydd yr anghydraddoldebau roedden nhw'n eu hwynebu nes iddyn nhw benderfynu defnyddio geiriau i gyfleu eu teimladau. Nid oedden nhw'n gallu fforddio prynu offerynnau. Daeth rap yn ffordd bwerus i grwpiau fel Public Enemy dros glwyddo eu neges. ○ GWRANDO/TRAFOD– Bring the Noise gan Public Enemy https://www.youtube.com/watch?v=l_Jeyif7bB4 ○ TRAFOD – Pa faterion mae'r disgyblion yn teimlo'n gryf amdanynt? A oes rhyw anghyfiawnder neu fater a allai fod yn ffocws i'w rap? Tlodi? Hiliaeth? Difrod amgylcheddol? Creulondeb i anifeiliaid? Seiberfwlio? Gofynnwch iddyn nhw drafod mewn parau, yna mewn grŵp, pa neges maen nhw am ei throsglwyddo. ○ YSGRIFENNU – Bydd pob grŵp yn penderfynu ar ffocws eu rap. Ar y daflen Geiriau Allweddol a ddarparwyd, bydd disgyblion yn cydweithio i greu rhestr o eiriau â phosibl sy'n ymwneud â'r testun a ddewiswyd ganddyn nhw. ○ YSGRIFENNU/GOLYGU – Bydd y disgyblion yn edrych ar eu rhestr ac yn dewis y 10 gair pwysicaf y mae angen eu cynnwys yn eu rap. ○ YSGRIFENNU/ODLI– Gan ddefnyddio'r daflen Geiriau sy'n Odli a ddarparwyd, bydd disgyblion yn cymryd eu 10 gair ac yn creu odlau addas ar gyfer pob un. Ceisiwch greu odlau sy'n defnyddio niferoedd gwahanol o sillafau er mwyn creu diddordeb a llif rhythmig. Gweler y ddolen i'r wefan odli http://www.poetry4kids.com/rhymes Conclusion 	<p>Gallai hanesydd lleol ymweld â'r ysgol i siarad am hanes America – y fasnach gaethweision, terfysgoedd hil, cynnwrf yn ystod y 60au</p> <p>Gallech gysylltu â Bardd/awdur i drafod sut i greu syniadau ac odlau diddorol. Mae gan Llenyddiaeth Cymru restr A-Y o awduron, gweler Cronfa Ddata Awduron Cymru http://www.literaturewales.org/</p> <p>Ymwelwch â'r ysgol uwchradd leol er mwyn i aelod o'r adran hanes roi gwers ar hanes America</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: egluro gwybodaeth a syniadau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Ysgrifennu YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol YY3: cynllunio ysgrifennu</p>

Tasg 3: Ymchwilio i farddoniaeth, rap a Shakespeare	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd posibl y FFLIRh.
<p>A yw rap yn debyg i waith William Shakespeare? Nod Tasg 3 yw dangos i ddisgyblion bod gan bob darn o farddoniaeth dda elfennau sylfaenol rhythm, odl a dewis gwych o eiriau</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD/YSGRIFENNU – Beth mae disgyblion yn ei wybod eisoes am Shakespeare? O ble roedd Shakespeare yn dod? Pam roedd yn enwog? Trafodwch mewn partneriaid, yna mewn grwpiau. Gellid rhoi copi wedi'i chwyddo o'r daflen Map Cylch Shakespeare i bob grŵp ei llenwi ○ DARLEN/YSGRIFENNU – dilynwch y ddolen i BBC Primary History i gael mwy o ffeithiau am Shakespeare, ac anogwch y disgyblion i ychwanegu unrhyw ffeithiau newydd maen nhw'n eu darganfod at eu map cylch http://www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/famouspeople/william_shakespeare/ ○ TRAFOD – Beth yw'r pethau sy'n debyg ac yn wahanol rhwng Shakespeare a rap/hip hop? (Noder: Barddoniaeth i gyfeiliant cerddoriaeth yw rap, hip hop yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r diwylliant ehangach sy'n cwmpasu cerddoriaeth, ffasiwn, celfyddyd graffiti, dawnsio stryd, brêcddawnsio, DJs ac ati) ○ GWYLIO – Mae Akala wedi astudio Shakespeare a rap, dilynwch y ddolen i weld ei ganfyddiadau. Yn ystod y clip, mae'n gofyn i'r gynulleidfa bleidleisio 'Shakespeare neu hip hop?' Stopiwch y clip ar yr adeg hon a gofynnwch i'r dosbarth wneud eu pleidlais eu hunain. GWYLIWCH HYD AT 4mun yna stopiwch http://www.youtube.com/watch?v=DSbtkLA3GrY&feature=player_embedded ○ TRAFOD/GWYLIO...Oeddech chi wedi'ch synnu gan y fideo? Sut fyddai geiriau Shakespeare yn swnio i gyfeiliant rap? Gwylwch fideo Akala o 5mun16 – 7mun15 	<p>Cysylltwch â chwmmi theatr lleol a allai ddod i siarad am Shakespeare a pherfformio darnau o'i waith http://www.theatre-wales.co.uk/companies/</p> <p>Ymwelwch â'r Globe Theatr yn Llundain neu edrychwch ar ei hadnoddau ar-lein http://www.shakespearesglobe.com/?gclid=C1fAj7bl_sgCFQVuGwodaTsAXQ</p> <p>RSC Education http://www.rsc.org.uk/education/</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwrandao'n ofalus LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Darllen DD3: adnabod gwybodaeth DD4: dod i gasgliad DD6: profiad</p>

<ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD/PERFFORMIO – Mae gan waith barddonol Shakespeare a rap nodweddion cyffredin – rhythm, odl a dewis cadarn o eiriau. Dilynwch ddolen y BBC isod a chliciwch ar ‘Writings’. Mae ychydig o ddyfyniadau byr gan Shakespeare – all unrhyw rai o’r disgyblion gymryd y dyfyniadau hyn a chreu rap byrfyfyr, gan eu hailadrodd dros guriad o 4 fel y gwnaeth Akala? http://www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/famouspeople/william_shakespeare/ 		<p>personol DYD2: ymateb i destun DYD3: gwneud cysylltiadau</p>
---	--	---

Tasg 4: Ymchwilio i nodweddion llenyddol a ddefnyddir mewn barddoniaeth a rap	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd y FfLIRh
<p><i>Mae’r disgyblion yn ymwybodol bod odl yn un o brif elfennau barddoniaeth, ond pa dechnegau eraill y gellir eu defnyddio? Nod Tasg 4 yw gwneud y disgyblion yn ymwybodol o ystod o ddyfeisiau llenyddol i wella eu gwaith ysgrifennu</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD – Pa dechnegau a dyfeisiau mae awduron yn eu defnyddio i wella eu barddoniaeth? ○ DARLLEN – Cyflwyno’r daflen Elfennau o Farddoniaeth a ddarparwyd. Canolbwyntiwch ar y rhai sydd fwyaf priodol i’ch disgyblion (er enghraifft, efallai dim ond odl/ailadrodd/cyffelybiaeth a throsiad) ○ YMCHWIL – Bydd y disgyblion yn gweithio mewn paru/grwpiau, gan astudio enghreifftiau o Shakespeare a rap i nodi’r technegau a ddefnyddiwyd. Gweler Geiriau’r Black Eyed Peas a ddarparwyd fel enghraifft o rap. Mae gan y ddolen BBC Primary History, o dan ‘Writings’, destun o Hamlet, Romeo & Juliet a Macbeth y gellir eu defnyddio. http://www.bbc.co.uk/schools/primaryhistory/famouspeople/william_shakespeare/ ○ NODI – O’r ddolen hon, rhwch fersiynau wedi’u chwyddo o’r testunau o Hamlet, Romeo & Juliet a Macbeth i’r disgyblion neu defnyddiwch enghreifftiau eraill o farddoniaeth rydych yn ei defnyddio yn y dosbarth ar hyn o bryd. Bydd grwpiau yn defnyddio aroleuwyr lliw gwahanol i gynrychioli enghreifftiau 	<p>Gwahoddwch awdur i ymweld â’r ysgol</p> <p>Llenyddiaeth Cymru – gweler Cronfa Ddata Awduron Cymru http://www.literaturewales.org/</p> <p>Ymwelwch â gŵyl lenyddol i glywed bardd/awdur yn darllen i gynulleidfa e.e. Gŵyl y Gelli https://www.hayfestival.com/portal/index.aspx?skinid=1&localesetting=en-GB</p> <p>Mae awduron megis Tom</p>	<p>Llythrennedd</p> <p>Llafaredd LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol er mwyn cwblhau tasg</p> <p>Darllen DS2: strategaethau darllen DS3: darllen testunau gwahanol DS5: cipddarllen (sgimio) a llithr ddarllen (sganio)</p>

<p>o odli, ailadrodd, cyflythreniad ac ati.</p> <ul style="list-style-type: none">○ TRAFOD – Pa dechnegau oedd fwyaf cyffredin? Odl? Ailadrodd? Ble oedd yr odlau yn y cerddi hyn? Ar ddiwedd y llinell bob tro? Yn y canol? Pa un o'r technegau hyn allai fod yn ddefnyddiol pan fyddant yn dechrau ysgrifennu eu rapiau eu hunain?	<p>Palmer yn ymweld ag ysgolion yn rheolaidd http://tompalmer.co.uk/</p>	<p>DS6: dibenion a nodweddion gwahanol destunau DS7: nodweddion y testun DS8: testunau ar sgrin DD3: adnabod gwybodaeth DD4: dod i gasgliad DD6: profiad personol DYD2: ymateb i destun DYD3: gwneud cysylltiadau DYD4: ffeithiau, damcaniaethau a barn DYD6: gwerthuso cynnwys</p>
---	--	---

Tasg 5: Ysgrifennu rapiau	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd y FfLIRh
<p><i>Mae gan y disgyblion daflen o eiriau ac odlau ac maen nhw bellach yn ymwybodol o ystod o ddyfeisiau llenyddol i wella eu gwaith. Nod Tasg 5 yw i'r disgyblion ddefnyddio'r syniadau hyn i greu eu caneuon rap eu hunain</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD – Mae gan ganeuon rap strwythur, fel arfer penillion a chytgan. Dangoswch y daflen Geiriau'r Black Eyed Peas i'r disgyblion. Yn eu cân rap 'Where is the Love?' mae'r gytgan wedi'i dangos mewn print trwm. Anogwch y disgyblion i roi strwythur i'w caneuon rap – pennill a chytgan er mwyn trosglwyddo eu neges yn glir <p>YSGRIFENNU – Gallai disgyblion greu pennill ynglŷn â'r problemau a wynebwyd, a gallai eu corws ganolbwyntio ar yr atebion i wella pethau.</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ CREU – Anogwch y disgyblion i deimlo curiad 4 cyson pan fyddan nhw'n ysgrifennu, gan ddweud eu geiriau ar goedd a sicrhau bod ganddyn nhw rythm. http://www.youtube.com/watch?v=N8lb_sdwenw ○ TRAFOD – Drwy gydol y broses dylid atgoffa/modelu/amlygu'r technegau i'w defnyddio, a hynny'n gyson – ailadrodd, odlau, cyflythreniad ac ati 	<p>Rapiwr/cyfansoddwr</p> <p>Cerdd Gymunedol Cymru http://communitymusicwales.co.uk/cy/</p> <p>Tŷ Cerdd http://www.tycerdd.org/about-us?diablo.lang=cym</p> <p>Edrychwch ar gwmnïau recordio o Gymru... http://www.sainwales.com/cy http://www.fflach.co.uk/cms/index.php http://www.bubblewrapcollective.co.uk/artists/</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwrando'n ofalus LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Ysgrifennu YY1: ysgrifennu at ddibenion gwahanol YY3: cynllunio gwaith ysgrifennu YS1: defnyddio strwythurau penodol wrth ysgrifennu YS2: trefnu gwaith ysgrifennu YS4: paragraffau a threfnu gwaith ysgrifennu mewn dilyniant YI1: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu YI2: datblygu geirfa YG1: strwythurau brawddeg YG5: sillafu</p>

Tasg 6: Ychwanegu cerddoriaeth at y caneuon rap	Cydweithredu	Lliwybrau cynnydd y FFLIRh
<p><i>Mae'r disgyblion wedi ysgrifennu eu caneuon rap. Nod Tasg 6 yw eu perfformio ag ymdeimlad o guriad ac yna ychwanegu cyfeiliant addas</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ○ YMARFER/PERFFORMIO – Bydd y disgyblion yn ymarfer eu caneuon rap, gan eu golygu wrth fynd yn eu blaenau er mwyn gwneud i'w gwaith lifo gan weddu i'r curiad 4 cyson. Yn dilyn hynny byddan nhw'n perfformio i'r dosbarth. ○ ARFARNU – Pa berfformiadau wnaeth gadw at y curiad? Pa rai oedd y mwyaf effeithiol o ran trosglwyddo eu neges? Pa grŵp oedd â'r naws a'r ysbryd cywir? ○ CREU CYFEILIAN – Pwysleiswch wrth y disgyblion mai eu geiriau yw'r elfen bwysicaf – dylai unrhyw gyfeiliant wella eu cyfoethogi ○ CYFEILIAN syniad 1 – Rhowch 2 offeryn i'r grwpiau - 1 heb ei diwnio, 1 wedi'i diwnio (e.e. drwm a glockenspiel). Bydd y drymiwr yn cadw'r curiad cyson neu'n creu rhythm da, tra bod disgybl arall yn creu alaw fachog ar y glock sy'n gweddu i naws y darn (gallai'r rhain fod yn dasgau i'ch disgyblion cerddoriaeth Mwy Abl a Thalentog). Bydd gweddill y grŵp yn canolbwyntio ar berfformio geiriau'r rap gydag arddeliad ac amseriad da. ○ CYFEILIAN syniad 2 – Garageband – os oes iPads ar gael, ewch i Garageband, Instruments yna Smart Drums. Yma fe welwch ddis – bydd gwasgu hwn yn creu curiadau gwahanol i'r disgyblion rapio drostynt. Bydd yr eicon Spanner yn caniatáu i ddisgyblion newid cyflymder y curiad. (Fel arall, defnyddiwch guriadau wedi'u gosod o flaen llaw ar allweddell electronig). Gall disgyblion Mwy Abl a Thalentog/Arweinwyr digidol arwain a chynorthwyo'r disgyblion yn y dasg hon. ○ CYFEILIAN syniad 3 – Bitbocsio. Mae'r ddolen isod yn dangos elfennau sylfaenol bitbocsio i'r disgyblion, gellid ymgorffori hyn yn eu perfformiad 	<p>Gweithdy drymio Affricanaidd i wella caneuon rap ac ymdeimlad o guriad...</p> <p>Yn ne Cymru http://www.phelpsmusic.com/main/african-drumming-workshops-south-wales/</p> <p>http://balletnimba.org.uk/education/4585873752</p> <p>Yng ngogledd Cymru http://colindaimond.co.uk/cy/north-wales-drum-workshops/</p> <p>Efallai y gallai tîm celfyddydau eich awdurdod lleol awgrymu darparwyr gweithdai</p> <p>Cerdd Gymunedol Cymru http://communitymusicwales.co.uk/cy/</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd</p> <p>LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwrando'n ofalus LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol LLS4: siarad yn eglur LLS5: chwarae rôl</p> <p>Ysgrifennu</p> <p>YY5: golygu a gwella gwaith YI1: defnyddio iaith sy'n briodol ar gyfer ysgrifennu</p>

<http://www.cansing.org.uk/ymarferion/rhestr.php?cat=6>

Tasg 7: Perfformio'r caneuon rap	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd y FFLIRh
<p>Mae'r disgyblion wedi arbrofi gyda chyfeiliannau. Nod Tasg 7 yw i'r disgyblion benderfynu pa gyfeiliant sy'n cyfateb orau i'w rap</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD/ARFARNU – Bydd grwpiau'n trafod pa gerddoriaeth gefndir oedd fwyaf effeithiol ar gyfer eu rap. Anogwch y disgyblion i feddwl sut maen nhw'n defnyddio eu lleisiau wrth berfformio – ydyn nhw'n gallu cynnwys canu neu lafarganu i wneud eu gwaith hyd yn oed yn well? ○ YMARFER/MIREINIO...Bydd disgyblion yn ymarfer ar gyfer y perfformiad olaf. Anogwch nhw i wrando'n ofalus ac ystyried cwestiynau megis – a yw'r geiriau'n glir? A yw'r cydbwysedd rhwng y geiriau a'r offerynnau'n gywir? Ydyn ni i gyd yn rapio gyda'n gilydd neu'n creu darnau unigol? A yw'r perfformiad yn rhy gyflym neu'n rhy araf? ○ PERFFORMIO/RECORDIO/ARFARNU – Bydd y disgyblion yn gwneud eu perfformiadau terfynol. Gellir recordio'r rhain ar iPad ac yna gallai'r dosbarth cyfan eu harfarnu. Pa berfformiadau rap oedd fwyaf effeithiol? ○ TRAFOD – Gofynnwch i'r disgyblion a oes cyfleoedd i berfformio'r caneuon rap i gynulleidfa e.e. gwasanaeth ysgol? Cyngerdd ysgol? Gwahodd rhieni i'w gweld? Rhoi'r recordiad ar wefan yr ysgol? ○ GWAITH ESTYNEDIG – Trafodwch boblogrwydd cynyddol 'brwydrau rapio' lle mae dau rapiwr yn cael pwnc e.e. bwllo, ac yna'n creu caneuon rap byrffyr yn ôl ac ymlaen gyda'r gynulleidfa yn dewis yr enillydd. Efallai y byddai'r disgyblion Mwy Abl a Thalentog yn mwynhau rhoi cynnig ar hyn. Gellir defnyddio iPads i roi curiad cefndir i rapio drosodd. 	<p>Byddai actorion/ cerddorion proffesiynol yn gallu rhannu awgrymiadau ar sut i ddarparu perfformiadau hyderus (a pherfformio eu hunain)</p> <p>Theatr, Dawns a Pherfformio Cymru http://www.theatre-wales.co.uk/companies/</p> <p>Cerdd Gymunedol Cymru http://communitymusicwales.co.uk/cy/</p> <p>Tŷ Cerdd http://www.tycerdd.org/about-us?diablo.lang=cym</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwranddo ar eraill LLG3: gofyn cwestiynau LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p>

Tasg 8: Sut mae pobl yn gwneud arian o gerddoriaeth?	Cydweithredu	Llwybrau cynnydd posibl y FfLIRh
<p><i>Efallai y bydd gan y disgyblion ddiddordeb mewn gyrfa yn y byd cerddorol. Nod Tasg 8 yw dangos rhai o'r ffyrdd y gall cerddorion ennill bywoliaeth drwy rai tasgau rhifedd</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD – Sut rydych chi'n meddwl bod cerddorion yn gwneud arian? Anogwch y disgyblion i ystyried pawb sy'n ymwneud â'r broses o greu a pherfformio cân. <p>(Mae'r sticer PRS coch a welwch ar ffenestri siopau yn dangos bod y busnes yn talu ffi PRS bob blwyddyn i allu chwarae cerddoriaeth. Mae'r PRS yn casglu data o orsafoedd radio, sianeli teledu a'r rhynggrwyd a chaiff yr arian a gesglir ganddo ei ddosbarthu i'r cyfansoddwyr; - yr amlaf y caiff record ei chwarae, y mwyaf o arian a delir. Rhaid i orsafoedd teledu a radio dalu am y gerddoriaeth maen nhw'n ei defnyddio).</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ TRAFOD – Gall y gwobrau ariannol i gerddorion llwyddiannus fod yn fawr iawn, ond mae llawer o gerddorion yn gwneud nifer o swyddi i gynhyrchu incwm. Mae'n rhaid iddyn nhw feddu ar lawer o sgiliau (addysgu plant, perfformio mewn gigiau, gwneud gwaith recordio â thâl mewn stiwdio, trefnu cerddoriaeth ar gyfer corau, cerddorfeydd.) ○ RHIFEDD 1 – Rhowch y daflen adnoddau Rhifedd i'r disgyblion. Y dasg gyntaf yw ymdrin â data gan ddefnyddio siart cylch a chanrannau, sy'n dangos i'r disgyblion sut y caiff yr arian a dderbynnir am drac sy'n cael ei islwytho ei rannu. ○ RHIFEDD 2 – Yr ail dasg yw ymdrin â data gan ddefnyddio tabl sy'n canolbwyntio ar arian a chanrannau. ○ RHIFEDD 3 – Mae'r dasg olaf yn ymwneud ag amcangyfrif a chyfrifo. 	<p>Cysylltwch â PRS for Music i awgrymu bod aelod lleol yn dod i mewn i siarad am ffyrdd y gall cerddorion ennill arian o'u cerddoriaeth http://www.prsformusic.com/Pages/default.aspx</p> <p>Gwahoddwch gerddorion proffesiynol i'r ysgol i siarad am eu gyrfa a sut y gwnaethant ddechrau arni yn y byd cerddorol.</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: esbonio gwybodaeth a syniadau LLS3: sgwrs fwy estynedig LLG1: gwranddo ar eraill LLC1: cymryd rhan mewn trafodaeth LLC2: siarad yn bwrpasol</p> <p>Rhifedd Datblygu ymresymu rhifyddol CA2.1 trosglwyddo sgiliau CA2.2 adnabod camau CA2.3 technegau priodol CA2.4 strategaethau meddwl ac ysgrifenedig CA211: egluro canlyniadau CA217: strategaethau gwirio CA218: dehongli atebion CA219: dod i gasgliadau Defnyddio sgiliau rhif Rh2: darllen/ysgrifennu rhifau Rh5: lluosï Rh6: lluosï rhifau â 10 a 100 Rh9: cywerthedd ffracsiynau, degolion/% Rh10: canrannau Rh13: lluosï a rhannu Rh15: amcangyfrif drwy dalgrynnu Rh18: elw a gwerth am arian</p>

- **TRAFOD** – Nid yw'n hawdd bod yn gerddor llwyddiannus, ond yng Nghymru, fel cenedl, rydym yn cystadlu â'r gorau. Faint o gerddorion llwyddiannus o Gymru allwch chi eu henwi? Pwysleiswch y ffaith bod gyrfaoedd cerddorol llwyddiannus yn bosibl gyda thalent, dyfalbarhad a llawer o waith caled.

Defnyddio sgiliau data
D3: dehongli data

Gweithgareddau pellach a awgrymir

- Ymchwiliwch i agweddau eraill ar ddiwylliant hip hop megis celf graffiti, brêcddawnsio ac ati a chrëwch arddangosfa ar gyfer y dosbarth/coridor
- Trafodwch ymadroddion megis: 'Nid yw cerddoriaeth rap yn gerddoriaeth go iawn a dylid ei gwahardd' neu 'Mae hip hop yn gwneud y byd yn fwy diddorol'
- Crëwch ddetholiad o hoff gerddi. Beth am berfformio 'gornest farddoniaeth' gerbron cynulleidfa? Gall y gynulleidfa bleidleisio dros y perfformiad gorau

Ymchwiliwch ymhellach i iaith ac odl e.e. Slang odli'r Cocni neu ddyfeisiau llythrennedd a ddefnyddiwyd gan Dylan Thomas

Asesu mewn perthynas â'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd

Gallai'r dysgwyr arddangos nifer o elfennau ac agweddau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wrth iddynt wneud y gweithgaredd hwn. Rhestrir y prif feysydd y dylid canolbwyntio arnynt yn y tablau isod.

Llythrennedd			
Llinyn	Elfen	Agwedd	
Llafaredd ar draws y cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	
		Gwranddo	
		Cydweithio a thrafod	
Darllen ar draws y cwricwlwm	Dod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio	Strategaethau darllen	
		Darllen a deall	
	Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Ymateb a dadansoddi	
Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	
		Strwythur a threfn	
	Ysgrifennu'n gywir	laith	
		Cystrawen; Atalnodi; Sillafu; Llawysgrifen	

Rhifedd		
Llinyn	Elfen	
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau	
	Cynrychioli a chyfathrebu	
	Adolygu	
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau	
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb	
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig	
	Amcangyfrif a gwirio	
	Rheoli arian	
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd	
	Amser	
	Tymheredd	
	Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle	
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau	